





# 15 Bro Waun, Waunfawr

## £149,950 Freehold

**“Mi fuodd hwn yn gartref lyfli i mi, mewn cul-de-sac distaw. Dwi wedi gwirioni byw yn Waunfawr – teithiau cerdded bendigedig, a phobl lyfli. Gobeithio’n fawr y bydd y perchennog nesaf yn cael yr un heddwch a mwynhad ag o’n i’n gael yn fan hyn.”**

***“This has been a lovely home for me, in a quiet cul-de-sac. I’ve absolutely loved living in Waunfawr – beautiful walks and lovely people. I really hope the next owner finds the same peace and enjoyment here as I have.”***

catra

Cartref eco 3x llofft yn Waunfawr. Angen tipyn o waith a chariad, ond mewn lleoliad bendigedig!
Eco-friendly 3-bed home in Waunfawr. Needs some TLC, but set in a beautiful and peaceful location.

Council Tax band: B

Tenure: Freehold

EPC Energy Efficiency Rating: F

- Eco-friendly 3-bedroom home with energy-efficient features.
- Located in the family-friendly village of Waunfawr.
- Close to a primary school, park, and football field.
- Set in a quiet, peaceful cul-de-sac—ideal for family living.
- Manageable garden leading to woodland, perfect for outdoor adventures.
- Great potential to update and personalise your dream home.
- On street parking
- Brand new radiators
- Double glazing throughout





*English Overleaf*

Wedi'i guddio mewn cilfan dawel yng nghanol pentref hoffus Waunfawr, mae'r tŷ teras tair ystafell wely hwn yn llawn potensial – ac mewn lleoliad fel hyn, mae'n hawdd gweld pam. Mae'r darn gwair yng nghanol y stad o dai yn fan diogel i blant chwarae, lle mae cymdogion yn stopio am sgwrs, a bywyd yn symud yn araf.

Mae'r tŷ ei hun yn gadarn ac yn dod â manteision ychwanegol: ffenestri dwbl ledled y tŷ, paneli solar newydd, pymp gwres ffynhonnell aer a 'radiators' newydd. Mae'n hynod effeithlon ac yn rhad i'w redeg. Wrth gamu i mewn, mae'n hawdd sylwi ar yr awyrgylch tawel a chysurus – y math o dawelwch sy'n gwneud i chi deimlo mor agos at y mynyddoedd. Mae'n dŷ sydd â rhythm heddychlon, yn aros i rywun roi eu cariad a'u steil eu hunain.

Y tu mewn, mae dwy ystafell fyw yn llifo i'w gilydd, gan adael i'r golau naturiol ddod o bob ochr y 'stafell. Mae'r ystafell fyw/ystafell fwyta wedi cael carpedi newydd, ac mae gan y ddwy ystafell brest simdda – cyfle gwych i osod lle tân neu losgwr coed. Dychmyga ddod adref ar ôl cerdded y mynyddoedd neu'r goedwig gyfagos a chynnau tân clyd i'r teulu.

Mae'r gegin angen ei adnewyddu ond yn ofod braf, ac yn agor yn uniongyrchol i adeilad allan yn y cefn a fyddai'n berffaith fel ystafell utility. O'r fan hon, mae drws yn arwain ymlaen i'r ardd – lle preifat, heddychlon, wedi'i hamgylchynu gan natur a choed. Hoff ddarn y perchennog presennol? Bwlch bach cudd yn y gwrychoedd sy'n arwain yn syth i'r goedwig, cae chwarae pêl-droed ac yna'r parc i blant – breuddwyd i deuluoedd ac yn atgof o'r rhyddid mae bywyd pentref yn ei gynnig.

I fyny'r grisiau, mae 'landing' eang yn cysylltu tair ystafell wely – dwy fawr ar gyfer gwelyau dwbl a dodrefn, ac un sengl. Ar hyn o bryd mae'r ystafell ymolchi a'r tŷ bach ar wahân, ond gellid eu cyfuno'n hawdd i greu un ystafell fwy, tasa' chi isho.

Mae bywyd yn Waunfawr â'i rythm ei hun. Siop leol gyfeillgar, tafarn dda, ysgol gynradd a ysgol meithrin, a llwybrau cerdded di-ri ar y stepen drws. Mae'n lle lle mae plant yn tyfu i fyny yn yr awyr agored, lle mae nosweithiau'n cael eu treulio wrth y tân, a lle mae'r mynyddoedd yn galw o'r gorwel. Gyda'r gwaith eco eisoes wedi'i gwblhau, paneli solar newydd ar y to, a lleoliad mor arbennig, mae'r tŷ hwn yn aros i gael ei wneud yn gartref annwyl unwaith eto.



*Tucked into a quiet cul-de-sac in the heart of Waunfawr, this three-bedroom terraced home is brimming with potential – and with a setting like this, it's easy to see why. The green at the centre of the cul-de-sac is where children play safely, neighbours stop to chat, and life feels that little bit slower.*
*The house itself is ready for a touch of imagination. Solidly built, with double glazing throughout, new solar panels, an air source heat pump and new radiators, it's wonderfully efficient and cheap to run. Step inside and you'll notice its very calming atmosphere – the kind of quiet where you feel the closeness of the mountains all around you. It's a house with a peaceful rhythm, just waiting for someone to add their own style.*

*Inside, two reception rooms flow into each other, giving you light from both sides of the house and plenty of choice on how to use the space. The lounge/dining area has a brand new carpet, and both rooms have chimney breasts, just waiting for a fireplace or log burner – the thought of coming home from a mountain walk or an adventure in the woods to a roaring fire is hard to resist.*

*The kitchen is generous, full of promise, and opens directly into a useful outbuilding that would make an excellent utility. From here, a doorway leads on into the garden – a private, peaceful spot wrapped in greenery. The current owner's favourite touch? A secret little gap in the hedge leading straight into woodland, a football field and the village playground – a dream for children and a reminder of the freedom village life can bring.*

*Upstairs, a wide landing leads to three bedrooms – two doubles and a single – along with a bathroom and separate WC that could easily be combined into one larger bathroom.*

*Life in Waunfawr has its own rhythm. There's a friendly local shop, a good pub, a school and nursery, and endless walks right on the doorstep. It's a place where children grow up outdoors, where evenings can be spent by the fire, and where the mountains call from just beyond the village. With the eco-work already complete, solar panels in place, and a setting this special, this house simply needs someone to love it and make it their own.*

**Cyntedd / Hallway**

Mae’r cyntedd yn ola ac yn eang, gyda grisiau agored. Mae ffenestr wrth ymyl y drws ffrynt yn gadael golau naturiol i lifo i mewn, gan oleuo’r gofod. O’r fan hon mae drysau’n arwain at yr ystafell fyw a’r gegin. Maeo'n gyntedd croesawgar.

*The hallway feels bright and spacious, with open stairs adding a a feeling of space. A window beside the front door lets in plenty of natural light. From here, doors lead into both the lounge and the kitchen, giving the home a welcoming flow.*

**Ystafelloedd Fyw / Living Rooms**

Mae’r ystafell fyw a’r ystafell fwyta, gyda charpedi newydd, yn cael eu gwahanu gan agoriad yn y wal, gan adael i’r prynwr benderfynu ar eu defnydd. Mae potensial i osod lle tân ym mhob un. Gyda ffenestri ar ddwy ochr, mae’r gofod yn llawn golau, a byddai drysau dwbl i’r ardd yn orffeniad perffaith.

*The living and dining rooms, both with new carpets, are divided by an archway, giving the buyer freedom to decide how to use the space. Each space features the possibility of a fireplace. With windows on both sides, the rooms are bright and airy, and adding double doors to the garden would complete the space.*













**Cegin / Kitchen**
Mae'r gegin hon yn sicr angen ei ddiweddaru, ond mae'r gofod yn wych gyda digon o le ar y cownteri a sinc o dan y ffenestr. Mae'r teils llawr coch gwreiddiol yn ychwanegu cymeriad a chyfle i greu calon newydd i'r cartref.

*This kitchen is ready for updating, but the space itself works beautifully with plenty of worktop area and a charming sink set beneath the window. The original red floor tiles add character and provide a wonderful base for creating a fresh new heart to the home.*

**Utility**
Mae'r ardal utility hon yn fan ychwanegol gwych ar gyfer peiriant golchi a rhewgell, gyda lle defnyddiol fel pantri. Mae cwpwrdd mawr hefyd, yn berffaith fel storfa goed neu i gadw beiciau a pheiriannau torri gwair.

*This utility area is a fantastic bonus space, with room for a washing machine and fridge freezer, plus a handy pantry section. A large cupboard is perfect for logs, bikes, or a lawnmower.*

**Ystafell Wely 1 / Bedroom 1**

Mae'r ystafell wely hon yng nghefn y tŷ yn mwynhau haul y bore a golygfeydd o'r adar yn y coed tu ôl. Ystafell fawr sy'n hawdd yn dal gwely dwbl a dodrefn ychwanegol, gan gynnig lle perffaith i greu ardal clyd a thawel.

*This rear bedroom enjoys the morning sun and peaceful views of birds in the trees behind. A generously sized room, it would easily fit a double bed and additional furniture, offering the perfect calm retreat to wake up to each day.*

**Ystafell Wely 2 / Bedroom 2**

Mae'r ail ystafell wely hon yng nghanol blaen y tŷ, ac mae'n ystafell hael ei maint a fyddai'n hawdd dal gwely dwbl a dodrefn ychwanegol.

*This second bedroom sits at the front of the house and is generously sized, easily accommodating a double bed and additional furniture.*













**Ystafell Wely 3 / Bedroom 3**
Y lleiaf o'r tair ystafell wely, ond yn dal yn ymarferol a hyblyg. Mae'n ddigon mawr i ffitio gwely sengl yn hawdd, neu gellid ei droi'n swyddfa gartref gyfforddus.
*The smallest of the three bedrooms, yet still practical and versatile. It will comfortably fit a single bed, or could just as easily be transformed into a cosy home office.*

**Ystafell Molchi / Bathroom**
Ar hyn o bryd mae'r ystafell ymolchi'n cynnwys bath a sinc, gyda'r tŷ bach ar wahân drws nesaf. Byddai'n hawdd eu cyfuno i greu ystafell fawr, ond mae'r trefniant presennol hefyd yn ymarferol. Bydd angen diweddaru, gan roi cyfle i greu gofod ffresh a modern.

*Currently arranged as a bathroom with bath and sink, and a separate WC next door. The two could easily be knocked through to create a larger bathroom, though the current layout works well. The space is ready for updating, offering scope for a fresh modern* design.




**Garden**
Mae'r ardd yn le tawel a hawdd i'w reoli—perffaith i'r rheiny sy'n hoffi bod allan heb ormod o waith. Nid yw'n rhy fawr, ond yn ddigon i ymlacio, neu i blant chwarae a mwynhau. Un o hoff bethau'r perchennog presennol yw'r bwlch bach yn y gwyrddni ar y cefn sy'n arwain i'r coedwig tu ôl i'r tŷ. Mae'n drysor cudd ar gyfer anturiaethau—berffaith ar gyfer adeiladu 'den', archwilio, neu redeg i'r cae pel-droed a'r parc plant sy'n gyfagos. Mae hon yn ardd a cartref sydd wedi'u creu i deuluoedd fwynhau rhyddid a bywyd tu allan.

*The garden is a peaceful, manageable space—perfect for those who enjoy the outdoors without too much upkeep. It's not too big, but just right for relaxing, pottering, or letting children play. One of the current owner's favourite features is a little gap in the bushes at the back, leading straight into the woodland beyond. It's a secret doorway to adventure—ideal for den building, exploring, or nipping over to the football field and children's park just next door. This really is a garden made for family life, in a place where kids can enjoy freedom and fresh air right from their back door*















Energy Efficiency Rating
Current
Potential
Very energy efficient - lower running costs
(92+) A
(81-91) B
(69-80) C
(55-68) D
(39-54) E
(21-38) F
(1-20) G
Not energy efficient - higher running costs
97
29
England, Scotland & Wales
EU Directive 2002/91/EC


Hall
54.71 sq ft
Kitchen
88.80 sq ft
Living Room
125.77 sq ft
Dining Room
125.23 sq ft
Bedroom
117.23 sq ft
Bedroom
121.68 sq ft
Hall
87.69 sq ft
Bathroom
32.56 sq ft
Toilet
14.80 sq ft